



Slipiau Cyflog Ar-lein

Mae slipiau cyflog ar-lein yn dod yn gynyddol gyffredin erbyn hyn. Mae rhai cyflogwyr yn defnyddio e-slipiau cyflog bob mis yn lle slipiau cyflog papur ac mae'n rhaid i athrawon gael gafael arnynt ar-lein.

Mae adran 8 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn dweud bod gan y gweithiwr hawl i dderbyn datganiad cyflog wedi'i restru'n fanwl. Mae'r adran hon yn nodi'r canlynol:

- (1) *Mae gan bob cyflogai'r hawl i dderbyn datganiad cyflog ysgrifenedig wedi'i restru'n fanwl gan ei gyflogwr/chyflogwr, ar neu cyn yr amser pan fydd yn derbyn tâl neu gyflog.*
- (2) *Bydd y datganiad yn cynnwys manylion:*
 - (a) *cyfanswm gros y cyflog neu'r tâl,*
 - (b) *swm unrhyw ddi-dyniadau newidiol a phenodedig (o dan adran 9), o'r cyfanswm gros hwn ac i ba bwrpas y cawsent eu tynnu,*
 - (c) *cyfanswm net y cyflog neu'r tâl sy'n daladwy, a*
 - (d) *swm pob rhandaliad a sut y cânt eu talu, lle telir gwahanol rannau'r cyfanswm net mewn gwahanol ffyrdd.*

Gallwch ddarllen y ddeddfwriaeth berthnasol drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/18/section/8.

Mae'n rhaid i gyflogeion felly dderbyn datganiadau cyflog wedi'u rhestru'n fanwl. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal cyflogwyr rhag eu darparu ar-lein ar yr amod bod y cyflogeion yn derbyn rhybudd digonol mai dyma sut y byddent yn derbyn y datganiad cyflog. Mae gofyniad i gyflogwyr eu darparu ar, neu cyn, y dyddiad y telir yr aelod, h.y. os telir y cyflogai'n fisol, yna dylid darparu'r datganiad cyflog ar-lein yn fisol.

Yr amod o ran caniatáu i gyflogwyr ddarparu datganiadau ar-lein yw y dylai'r cyflogeion allu cael gafael ar y datganiad ar-lein. Os bydd cyflogwr yn ymwybodol bod cyflogai'n cael anhawster cael gafael ar y datganiad cyflog ar-lein, dylai'r cyflogwr ganfod ffordd wahanol o ddarparu'r datganiad cyflog i'r cyflogai. Er enghraifft, os yw athro/athrawes ar absenoldeb salwch tymor hir heb allu cael gafael ar gyfrifiadur, yna dylid darparu copïau papur iddo/iddi.

Cyngor i aelodau NASUWT

- Mae'n hollbwysig bod aelodau'n cadw eu slipiau cyflog am eu bod yn ddogfennau cyfreithiol hanfodol ac mae rhai materion yn gallu codi weithiau sy'n gofyn am gael gweld slipiau cyflog fel prawf o enillion neu gyfraniadau pensiwn. Felly, dylid cynghori'r aelodau i archifo e-slipiau cyflog yn ddiogel, os defnyddir y math yma o slipiau cyflog, ac argraffu copïau caled ohonynt a'u cadw'n ddiogel.
- Mewn amgylchiadau lle darperir slipiau cyflog ar-lein, os bydd aelodau'n cael unrhyw anhawster wrth geisio cael gafael ar eu slipiau cyflog, dylent ofyn i'w cyflogwr unioni'r broblem. Os bydd y cyflogwr yn methu rhoi slip cyflog iddynt, na chywiro'r gwall sy'n eu hatal rhag cael gafael ar y slip cyflog ar-lein a'i argraffu, dylai'r aelodau ofyn am gymorth gan NASUWT.

Cyngor i gynrychiolwyr NASUWT

Dylai cynrychiolwyr NASUWT gymryd y camau gweithredu dilynol:

- gofyn iddynt barhau i ddarparu slipiau cyflog ar bapur. Os bydd y cyflogwr yn gwrthod darparu'r slipiau hyn, dylai cynrychiolwyr NASUWT geisio sicrhau bod cyfleusterau argraffu ar gael i'r aelodau a bod modd argraffu e-slipiau cyflog yn rhad ac am ddim;
- sicrhau bod aelodau sydd ar absenoldeb salwch yn derbyn slipiau cyflog ar bapur gan y cyflogwr, sy'n cael eu hanfon i'w cyfeiriad cartref;
- cysylltu â NASUWT i ofyn am gymorth os bydd problemau'n codi.

